Gwasanaeth Trochi yn y Gymraeg
RHONDDA CYNON TAF

# TAITH IAITH

## Eich taith GYMRAEG
## Your WELSH language journey



Ein Hanes. Ein Diwylliant.
**EIN DYFODOL!**

RHONDDA CYNON TAF

# PROSBECTWS



# CROESO... WELCOME...

## Rydyn ni wrth ein bodd eich bod chi'n ystyried y gwasanaeth Taith Iaith ar gyfer taith iaith eich plentyn.

## EIN NOD...

**i gefnogi disgyblion fel eu bod nhw'n gallu defnyddio'r Gymraeg yn hyderus.**

Bydd hyn yn galluogi disgyblion i gael mynediad at addysg cyfrwng Cymraeg a derbyn eu haddysg drwy gyfrwng y Gymraeg am weddill eu hamser mewn addysg statudol.

Mae'r gwasanaeth trochi yn y Gymraeg, o'r enw Taith Iaith, yn **wasanaeth cynhwysol** sy'n darparu **profiad dysgu amgylchynol**, gan gefnogi ac ysbrydoli disgyblion i ddod yn siaradwyr Cymraeg annibynnol a hyderus.





# EIN GWELEDIGAETH...

**...i gynyddu'r nifer o ddisgyblion sy'n derbyn eu haddysg drwy gyfrwng y Gymraeg yn Rhondda Cynon Taf.**

Mae Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg (CSCA) y Cyngor yn gynllun deng mlynedd sy'n seiliedig ar gynllunio a gwella addysg cyfrwng Cymraeg, gan amlinellu targedau uchelgeisiol i gynyddu nifer y dysgwyr mewn addysg Gymraeg erbyn 2032.

Mae targedau CSCA y Cyngor yn cael eu gyrru gan weledigaeth Cymraeg 2050 Llywodraeth Cymru o filiwn o siaradwyr Cymraeg yng Nghymru erbyn 2050, gan gydnabod pwysigrwydd y strategaeth yma a pha mor hanfodol yw'r system addysg i gyflawni'r targedau.

**Peidiwch â meddwl ei bod hi'n rhy hwyr i'ch plentyn ddysgu Cymraeg!**

Sganiwch y cod QR i weld ein fideo sy'n rhoi trosolwg o'r rhaglen.

# YR HYN RYDYN NI'N EI GYNNIG:

- **Cyfle i newydd-ddyfodiaid ddysgu'r iaith a chael mynediad at addysg Gymraeg.**
- **Profiad o ddysgu trwy drochi wedi'i deilwra i bob unigolyn.**
- **Canllaw cam wrth gam i ddysgu Cymraeg.**
- **Cymorth ac arweiniad i ddisgyblion, staff a rhieni/gwarcheidwaid.**
- **Cymorth parhaol i ddisgyblion wrth ddychwelyd i'r dosbarth cyfrwng Cymraeg.**

# Y DAITH...



## CYCHWYN...

**Bydd y disgybl yn cwrdd â'r aelod o'r garfan a fydd yn ei gefnogi yn ei ysgol Gymraeg newydd. Bydd asesiad llafar sylfaenol i sefydlu lefel y gefnogaeth sydd ei hangen.**

1. Bydd y disgybl yn derbyn o leiaf un wers Gymraeg y dydd yn yr ysgol a bydd cymorth parhaus i ddisgyblion i'w cefnogi yn yr ystafell ddosbarth rhwng sesiynau.

Drwy gydol y broses, bydd rhieni/gwarcheidwaid a staff yr ysgol yn derbyn diweddariadau cyson gan y garfan Taith Iaith.

2. Bydd asesiad llafar pellach hanner ffordd drwy'r cynllun i asesu ac olrhain cynnydd.

3. Ar ddiwedd y cyfnod o 20 wythnos, bydd asesiad llafar pellach i asesu cynnydd.

   Os yw'r disgybl yn bodloni'r meini prawf gofynnol, bydd y sesiynau dyddiol yn dod i ben.

Bydd y disgybl yn gweithio trwy gynllun gwaith trylwyr am gyfnod o 20 wythnos o leiaf.

4. Bydd cynnig ôl-ofal i unrhyw ddisgyblion sydd angen cymorth ychwanegol gyda'u sgiliau iaith. Mae'r cymorth yma wedi'i deilwra i anghenion dysgu unigol pob disgybl.

## Y DIWEDD?



## YMLAEN!

**Mae'r garfan Taith Iaith yn gweithio'n agos gyda staff a disgyblion yr ysgol i sicrhau trosglwyddiad di-dor i'r ystafell ddosbarth Gymraeg.**

# ADDYSGU A DYSGU

**Rydyn ni'n defnyddio'r Fframwaith Cyfeirio Cyffredin Ewropeaidd ar gyfer Ieithoedd ('CEFR') i fesur safon defnydd unigolion o'r Gymraeg.**

**A1** **Defnyddiwr Sylfaenol**
Gall ddefnyddio geiriau ac ymadroddion syml.
Gall ddweud pwy ydyn nhw a gofyn cwestiynau sylfaenol.

**A2** **Defnyddiwr Sylfaenol**
Gall ddeall a defnyddio iaith bob dydd.
Gall siarad am bynciau cyfarwydd fel teulu, siopa ac ysgol.

**B1** **Defnyddiwr Annibynnol**
Gall ymdopi â'r rhan fwyaf o sefyllfaoedd wrth deithio.
Gall siarad am brofiadau a rhoi barn.

**B2** **Defnyddiwr Annibynnol**
Gall ddeall syniadau mwy cymhleth.
Gall siarad yn rhugl ac egluro safbwyntiau'n glir

**C1** **Defnyddiwr Hyfedr**
Gall ddefnyddio iaith yn effeithiol ar gyfer gwaith neu astudio.
Gall fynegi syniadau'n rhugl ac yn hyblyg.

**C2** **Defnyddiwr Hyfedr**
Gall ddeall bron popeth.
Gall siarad ac ysgrifennu'n gywir, hyd yn oed mewn sefyllfaoedd cymhleth.



**Er mwyn atgyfnerthu dysgu o'r ystafell ddosbarth, ambell waith bydd y garfan yn mynd â disgyblion tu allan i safle'r ysgol i roi cyfleoedd iddyn nhw ddefnyddio eu Cymraeg mewn cyd-destunau gwahanol. Gallai hyn fod yn ymweliad â pharc lleol, caffi, neu archfarchnad.**

Mae pob ymweliad oddi ar y safle yn cael ei gofnodi ar raglen iechyd a diogelwch ar-lein ysgolion ar gyfer cofnodi tripiau ysgol. Mae carfan Taith Iaith yn gweithio gydag ysgolion i gwblhau gwiriadau iechyd a diogelwch trylwyr ac mae rhieni/gwarcheidwaid yn cael gwybod am yr ymweliadau mewn da bryd.



# Asesu a Chofnodi

**Er mwyn sicrhau bod cynnydd disgyblion yn cael ei adolygu'n fanwl, bydd asesiadau ar gyfnodau allweddol yn ystod y cyfnod o 20 wythnos o leiaf: ar y dechrau, hanner ffordd drwodd ac eto ar y diwedd.**

Bydd asesiadau anffurfiol bob wythnos i fonitro cynnydd yn erbyn yr wythnos flaenorol. Mae'r system asesu yma'n caniatáu i'r garfan fonitro cynnydd pob disgybl i sicrhau eu bod nhw'n symud ymlaen gyda'u dysgu.

Bydd canlyniadau asesiadau ffurfiol yn cael eu rhannu gyda rhieni/gwarcheidwaid a staff yr ysgol fel bod pawb yn rhan o daith dysgu Cymraeg y disgybl.

Mae'r garfan yn cynnwys rhieni/gwarcheidwaid yn y broses drochi trwy ddarparu diweddariadau cyson ar gynnydd eu plentyn trwy'r ap Seesaw. Mae'r diweddariadau hyn yn cynnwys ffotograffau a/neu fideos o'r plant yn ystod eu sesiynau ac maen nhw'n cefnogi atgyfnerthu dysgu gartref.

# Cymorth a Llesiant

**Yn unol ag egwyddorion a gwerthoedd pob ysgol yn Rhondda Cynon Taf, mae lles eich plentyn yn hollbwysig.**

Wrth gychwyn gyda'r gwasanaeth, mae'n ofynnol i rieni/gwarcheidwaid gwblhau proffil un dudalen er mwyn helpu'r garfan i ddod i nabod y disgybl ac i sicrhau bod y lefel briodol o gefnogaeth a gofal yn cael ei chynnig. Yn ogystal, bydd cyswllt rhwng y rhiant/gwarcheidwad a'r aelod o'r garfan a fydd yn cefnogi'r disgybl cyn i'r sesiynau gychwyn fel eich bod chi'n teimlo bod modd cyfleu unrhyw bryderon yn glir.

Yn dilyn pob sesiwn, bydd cofnod o gynnydd y disgyblion fydd yn manylu ar eu cryfderau, eu hymddygiadau a'r camau nesaf ar gyfer y sesiwn ganlynol. Mae'r holl gofnodion cynnydd ar gael i rieni/gwarcheidwaid os ydyn nhw am eu gweld.

**I gael rhagor o wybodaeth am egwyddorion a gwerthoedd craidd ysgolion, cysylltwch â'ch ysgol cyfrwng Cymraeg lleol.**






# PRESENOLDEB

**Mae presenoldeb ac ymgysylltiad â'r sesiynau dyddiol yn hanfodol i lwyddiant y dysgwyr.**

Mae'n ofynnol i ddisgyblion fynychu o leiaf 75% o'r sesiynau er mwyn sicrhau eu bod wedi'u trochi yn y Gymraeg yn gyfan gwbl a'u bod yn gallu symud ymlaen cyn gynted â phosibl.

Mewn achosion lle bydd disgyblion yn colli eu sesiynau, bydd gofyn i rieni/gwarcheidwaid roi gwybod i'r ysgol cyn gynted â phosibl.

# PONTIO

**Mae sicrhau proses bontio ddi-dor i ddisgyblion wrth iddyn nhw addasu i'w hysgol cyfrwng Cymraeg newydd ar ddiwedd y cynllun yn bwysig i ni.**

Mae'r gefnogaeth i bob disgybl wedi'i theilwra yn seiliedig ar eu hanghenion dysgu unigol. Drwy gydol eu hamser gyda'r gwasanaeth, mae'r ysgol yn derbyn diweddariadau ar eu cynnydd. Yn ogystal, i gefnogi'r disgybl ymhellach gyda'i ddysgu i gefnogi pontio i'w ystafell ddosbarth Gymraeg, bydd pecynnau adnoddau'n cael eu rhannu gydag ysgolion a rhieni/gwarcheidwaid.

Ar ddiwedd y cyfnod o 20 wythnos o leiaf, mae rhai disgyblion yn trosglwyddo'n annibynnol i'r ystafell ddosbarth heb unrhyw ofynion am gefnogaeth ychwanegol.

Mae'r gefnogaeth yma'n parhau nes bod y disgybl yn hyderus ac yn barod i'r gefnogaeth ddod i ben.

# Sut i gael mynediad at y gwasanaeth

**I gael mynediad at wasanaeth Taith Iaith, ond ychydig o gamau syml sydd i'w dilyn...**

## 1 Cysylltwch â'ch ysgol Gymraeg lleol...

Mae modd trefnu ymweliad â'r ysgol i edrych o gwmpas a chael teimlad ohoni os dymunwch; bydd ysgolion yn hapus i'ch cefnogi.

Mae modd dod o hyd i gyfeiriadur ysgolion cyfrwng Cymraeg yma... **www.rctcbc.gov.uk/AddysgCyfrwngCymraeg**



## 2 Cysylltwch â charfan Derbyn Disgyblion y Cyngor...

os hoffech chi barhau i drosglwyddo'ch plentyn/plant i'r ysgol.

I gysylltu â'r garfan Derbyn Disgyblion ynglŷn â newid ysgol, cysylltwch â:

**DerbynDisgyblion@rctcbc.gov.uk**

## 3 Dechreuwch eich taith...

unwaith y bydd y disgybl wedi trosglwyddo'n llwyddiannus i'r ysgol Gymraeg newydd, bydd pennaeth yr ysgol yn cysylltu ag arweinydd Taith Iaith i drefnu dyddiad cychwyn ar gyfer y sesiynau.

Bydd rheolwr y gwasanaeth Taith Iaith yn fwy na hapus i drafod unrhyw gwestiynau sydd gyda chi cyn neu ar unrhyw bwynt yn ystod taith iaith Gymraeg eich plentyn.

E-bostiwch:

**Trochilaith@rctcbc.gov.uk**

**www.rctcbc.gov.uk/TaithIaithCY**



Mae croeso i chi gyfathrebu â ni yn y Gymraeg

You are welcome to communicate with us in Welsh